***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 13. (See end of Document for details)*

# ATODLEN 3

## DARPARIAETHAU TROSIANNOL, ATODOL AC ARBED

## RHAN 3

## TROSGLWYDDO SWYDDOGAETHAU ETC

*Indemnio*

13 (1) Mae'r rhwymedigaethau sydd wedi eu cwmpasu gan adran 29 yn cynnwys—
(a) rhwymedigaethau sy'n codi cyn i'r adran honno ddod i rym, a
(b) rhwymedigaethau sy'n codi mewn perthynas ag unrhyw weithred neu anweithred a ddigwyddodd cyn i'r adran honno ddod i rym.

(2) Mae is-baragraff (3) yn gymwys pan—
(a) daw swm yn dyladwy gan gyn-Archwilydd Cyffredinol a benodwyd cyn i adran 2 ddod i rym, a
(b) byddai'r swm hwnnw wedi ei godi ar Gronfa Gyfunol Cymru o dan baragraff 9(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 cyn i'r paragraff hwnnw gael ei ddiddymu gan y Ddeddf hon.

(3) Mae paragraff 9(1) o Atodlen 8 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn parhau i gael effaith o ran y person hwnnw a'r swm hwnnw fel pe na bai'r diddymiad wedi dod i rym.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Atod. 3 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 35(2)**

**I2** Atod. 3 para. 13 mewn grym ar 4.7.2013 gan O.S. 2013/1466, **ergl. 2(w)(ii)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013, Paragraff 13.